



**Law  
Commission**  
Reforming the law

---

---

## **Priodi yn Sir Benfro Papur Cwmpasu**

---

---

### **Crynodeb Gweithredol**

**17 Rhagfyr 2015**

---

---

## **CYFLWYNIAD**

- 1.1 I gyplau, diwrnod eu priodas yw un o ddyddiau pwysicaf eu bywydau. Mae'n ddiwrnod o ddathlu, yn ogystal â diwrnod o arwyddocâd cyfreithiol. Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â sut i gydbwysu'r ddwy elfen yma a dylunio cyfraith priodas gyfoes sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- 1.2 Pan fu i ni gychwyn ar y cam cwmpasu hwn o'r prosiect, roeddem yn ystyried mai'r cwestiwn y dylem ei ofyn oedd a yw'r gyfraith gyfredol yn darparu fframwaith deg a chydlynol ar gyfer galluogi pobl i briodi. I'w roi fel arall, a yw'r gyfraith yn caniatáu i bobl briodi mewn ffordd sy'n bodloni eu hanghenion a'u dymuniadau drwy fod yn ystyrion iddyn nhw, tra'n cydnabod buddiannau'r gymdeithas a'r wladwriaeth o ran gwarchod statws priodas?
- 1.3 Ein casgliad ar ddiwedd y cam cwmpasu yw bod yna nifer o bobl nad yw'r gyfraith bresennol yn bodloni eu hanghenion a'u dymuniadau ac y gellir gwarchod buddiannau'r gymdeithas mewn perthynas â rheoleiddio sut mae priodasau yn cael eu gweinyddu yn well. Rydym hefyd wedi casglu nad yw'r gyfraith bresennol yn darparu fframwaith gydlynol ar gyfer galluogi pobl i briodi. Mae'r lefel o reoleiddio yn wahanol o un grefydd i'r llall a rhwng priodasau crefyddol a sifil. Hefyd, mae yna deimlad ymysg nifer o grwpiau ac unigolion bod y gyfraith yn annheg ac yn rhy gyfyngol.
- 1.4 Er bod y gyfraith yn caniatáu priodasau sifil a chrefyddol, mae'r rhwystrau cyfreithiol yn golygu bod yna reolau caeth ynghylch ble gall cyplau briodi. Ac nid oes darpariaeth chwaith ar gyfer cynnal priodasau yn unol â systemau cred anghrefyddol, megis dyneiddiaeth. Hefyd, ni chaiff cyplau rhyng-ffydd (pan fo'r ddau unigolyn yn arddel argyhoeddiadau crefyddol gwahanol) briodi mewn ffordd sy'n adlewyrchu y ddwy gred oherwydd ni ellir cynnwys deunydd crefyddol amlwg mewn seremoni sifil ac nid yw pob grŵp crefyddol yn barod i gydnabod defodau crefyddau eraill.
- 1.5 Ar yr un pryd, ni ddylai sut mae pobl eisiau priodi fod yr unig faen prawf. Mae angen rheoliadau ar gyfer sicrhau bod buddiannau'r gymdeithas a'r wladwriaeth yn cael eu gwarchod. Dylai'r gyfraith sicrhau bod y rhai sy'n priodi yn gymwys i wneud hynny. Dylai rwystro pobl rhag cael eu gorfodi i briodi, a sicrhau nad yw pobl yn priodi er mwyn hwyluso mewn fudo yn unig ("ffug briodasau"). Hefyd, mae angen cadw cofnod cywir o bob priodas sy'n digwydd.
- 1.6 O ganlyniad i hyn, rydym yn credu bod angen diwygio er mwyn creu mwy o ddewis mewn system gyfreithiol symlach. Nid yw'r system cyfraith briodas bresennol, a ddyluniwyd yn y bedwaredd ganrif ar hugain, yn bodloni anghenion a dymuniadau'r gymdeithas fwy amrywiol sydd ohoni heddiw. Nid yw'r gyfraith yn gydlynol, ac mae'n ddiangen o gymhleth, a gallai warchod buddiannau dilys y wladwriaeth a'r gymdeithas yn well.

## **CATALYDD Y PROSIECT**

- 1.7 Yn 2014, bu i'r Llywodraeth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylai sefydliadau credoau anghrefyddol, megis Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain, allu gweinyddu priodasau.

- 1.8 Bu i'r ymatebion i ymgynghoriad y Llywodraeth ddangos cefnogaeth sylweddol o blaid newid y gyfraith er mwyn caniatáu i briodasau gael eu gweinyddu gan sefydliadau credoau anghrefyddol. Fodd bynnag, bu iddynt amlygu cwestiynau anodd megis sut y gellid gweithredu diwygiad o'r fath, a bu i nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad awgrymu na ddylai unrhyw newid ddigwydd dim ond fel rhan o adolygiad mwy sylfaenol. O ganlyniad, bu i'r Llywodraeth ofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad eang o'r gyfraith sy'n rheoli sut mae pobl yn priodi.
- 1.9 Fel yr ydym yn ei drafod isod, mae'r gyfraith yn hen, yn gymhleth ac yn ansicr. O ganlyniad, mae'r cwestiwn ynghylch a ddylai sefydliadau credoau anghrefyddol allu gweinyddu priodasau, er ei fod yn un pwysig, yn un yn unig o nifer o gwestiynau y byddai angen eu hystyried gan adolygiad llawn o'r gyfraith sy'n rheoli sut a ble mae pobl yn priodi.

### **Y CAM CWMPASU**

- 1.10 O ystyried ystod y materion cyfreithiol, cymdeithasol a chrefyddol cymhleth sy'n tanategu cyfraith priodas, teimlwyd ei bod yn briodol i gam cyntaf gwaith Comisiwn y Gyfraith fod yn astudiaeth gwmpasu. Byddai'r gwaith hwn yn clustnodi'r materion y byddai angen eu hystyried cyn symud ymlaen i gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau diwygio.
- 1.11 Mae'r cam cwmpasu wedi ein galluogi i gael dealltwriaeth o'r holl faterion ac ystyried siâp unrhyw waith yn y dyfodol. Mae'r cam hwn hefyd wedi ein galluogi i glustnodi'r cwestiynau hynny ynghylch polisi cymdeithasol na fyddai'n briodol i Gomisiwn y Gyfraith, fel corff diwygio'r gyfraith, wneud argymhellion mewn perthynas â hwy.
- 1.12 Yn ystod y cam cwmpasu rydym wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o broblemau'r gyfraith bresennol a hysbyswyd drwy gyfarfod â nifer o grwpiau ac unigolion sydd ag arbenigedd neu ddiddordeb penodol yn y materion dan sylw. Amcan y gwaith hwn oedd, nid ymgynghori ar gynigion penodol ar gyfer diwygio na'u datblygu, ond ceisio sefydlu natur ac ystod y pryderon ynghylch y gyfraith ac arferion presennol.
- 1.13 Rydym wedi edrych ar y gyfraith mewn awdurdodaethau eraill er mwyn clustnodi ystod o fodelau rhyngwladol i'w hystyried wrth ddylunio cyfraith priodas symlach, tecach a mwy modern. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar yr awdurdodaethau hynny sydd ar stepen ein drws ac wedi nodi bod Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn caniatáu i briodasau gael eu cynnal gan sefydliadau credoau anghrefyddol penodol. Bu i ni hefyd gynnal ymchwil rhagarweiniol i ddeddfau UDA, Canada, Awstralia, Seland Newydd a De Affrica, yn ogystal â chynnal trosolwg o'r gwahanol ymagweddau ar hyd a lled Ewrop.

### **Y GYFRAITH BRESENNOL**

- 1.14 Dyluniwyd ein cyfraith priodas mewn oes wahanol ac ar gyfer oes wahanol. Mesur o gyfuno yn unig oedd y Ddeddf Priodas bresennol, a basiwyd yn 1949, ac yn ei hanfod, strwythur y gyfraith bresennol yw strwythur Deddf Priodas 1836.

- 1.15 Gellir disgrifio'r gyfraith sy'n rheoli sut mae pobl yn priodi mewn tri cham. I ddechrau, mae yna reolau sy'n rheoli beth mae'n rhaid i bobl ei wneud cyn iddynt briodi, y cyfeirir atynt yn aml fel y "camau rhagarweiniol". Yn ail, mae yna reolau ynglŷn â sut a phle y gellir cynnal seremoni'r briodas. Yn drydydd, mae yna reolau ynglŷn â sut y dylid cofrestru'r briodas gyda'r wladwriaeth.
- 1.16 Mae be'n union sy'n ofynnol ar y gwahanol gamau yma yn dibynnu ar p'un a yw'r briodas yn un sifil neu'n un grefyddol; os bydd yn un grefyddol, mae'r gofynion cyfreithiol hefyd yn wahanol rhwng crefyddau.
- 1.17 Mae'r opsiynau ar gyfer seremoni grefyddol yn fwy cyfyngedig ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Ni all cwpl o'r un rhyw briodi mewn seremoni Anglicanaidd, ac ni allant briodi dim ond yn unol â defodau crefydd arall os bydd y grefydd honno'n caniatáu hynny. Ni fydd y papur cwmpasu ac unrhyw waith arall a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith yn ailystyried y safbwynt hwn, sydd ond wedi ei sefydlu yn ddiweddar.

### **Camau rhagarweiniol**

- 1.18 Cyn y seremoni, mae'n rhaid i'r cwpl sy'n priodi roi hysbysiad o'u bwriad i briodi. Mae'n rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth a dogfennaeth benodol ynglŷn â nhw'n hunain a manylion ynglŷn â phryd a ble fydd eu priodas yn cael ei chynnal. Mae'r gofynion hyn yn amrywio yn ddibynnol ar p'un a yw'r cwpl yn priodi yn dilyn camau rhagarweiniol sifil neu Anglicanaidd.
- 1.19 Mae'n rhaid i bob cwpl sy'n priodi mewn seremoni nad yw'n Anglicanaidd hysbysu cofrestrydd arolygol yn y swyddfa gofrestru yn yr ardal ble maent yn byw. Bydd y cofrestrydd arolygol, os bydd yn fodlon bod y partïon yn gymwys i briodi, yn cyhoeddi manylion y briodas arfaethedig am 28 diwrnod, ac yn ystod y cyfnod hwn gall unrhyw berson wrthwynebu'r briodas. Ar ôl i'r "cyfnod aros" ddod i ben, bydd y cofrestrydd yn rhoi tystysgrifau i'r cwpl yn awdurdodi y gellir cynnal eu priodas. Pan fo un o'r partïon yn gallu ennill mantais mewn fudo o ganlyniad i'r briodas, gall y cyfnod aros fod yn hirach er mwyn hwyluso gwiriadau ynghylch â yw'r briodas arfaethedig yn ddiffuant neu beidio. Hefyd, mae yna reolau gwahanol o ran hysbysu pa fo un o'r cwpl, neu'r ddau, wedi eu cadw yn y ddalfa neu mewn ysbyty, yn gaeth i'r tŷ neu'n derfynol wael.
- 1.20 Nid oes angen i gyplau sy'n priodi mewn seremoni Anglicanaidd hysbysu cofrestrydd arolygol (er gall hynny fod yn bosibl). Yn hytrach, gallant alw am gyhoeddi gostegion priodasol yn yr eglwys neu gael trwydded gyffredin neu arbennig. Gostegion yw'r math mwyaf cyffredin o awdurdod ar gyfer cyplau sy'n priodi mewn seremoni Anglicanaidd; i bob pwrpas, maent yn hysbysiad o'r briodas a ddarllenir yn ystod tri gwasanaeth yn olynol ar y Sul cyn i'r briodas gael ei chynnal. Pan fo un o'r cwpl yn gallu cael mantais mewn fudo o ganlyniad i'r briodas ni chânt briodi dan awdurdod gostegion na thrwydded gyffredin; bydd angen iddynt naill hysbysu'r cofrestrydd neu gael trwydded arbennig.

### **Y Seremoni**

- 1.21 Mae yna gyfyngiadau mewn perthynas â ble y gellir cynnal seremoni. Mae'n rhaid i seremoni sifil gael ei chynnal mewn swyddfa gofrestru neu leoliad wedi'i gymeradwyo, megis gwesty neu amgueddfa.

- 1.22 Gellir cynnal seremonïau Anglicanaidd mewn unrhyw eglwys neu gapel ble gellir cyhoeddi gostegion, neu mewn unrhyw leoliad a ganiateir gan drwydded arbennig, a ddefnyddir yn aml i awdurdodi priodasau mewn capeli preifat megis yng ngholegau Rhydychen a Chaergrawnt neu Neuaddau'r Frawdlys. Mae gan yr eglwys Anglicanaidd ei rheolau ychwanegol ei hun ynglŷn â ble gall unrhyw gwpl penodol briodi, yn seiliedig ar ble maent yn byw, man addoli arferol neu gysylltiad cymwys. Nid oes yna gyfyngiadau statudol ynglŷn â ble gellir cynnal priodasau lldewon neu Grynwyr; yr unig gyfyngiadau yw'r rhai a geir yn y crefyddau eu hunain.
- 1.23 Mae'n rhaid i'r holl seremonïau crefyddol eraill, yn cynnwys rhai sy'n perthyn i enwadau Cristnogol y tu allan i'r eglwys Anglicanaidd, gael eu cynnal mewn adeilad sy'n fan addoli crefyddol ardystiedig ac sydd wedi ei gofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau. Diffinnir crefydd yn gyffredinol at y diben hwn, ond mae'n rhaid i'r gred honni ei bod yn "egluo lle'r ddynoliaeth yn y bydysawd" a mynd y tu hwnt "i'r hyn y gellir ei ganfod gan y synhwyrâu neu ei sefydlu drwy ddefnyddio gwyddoniaeth". Fel rheol gyffredinol, ni ellir cynnal seremoni mewn adeilad cofrestredig dim ond yn y dosbarth ble mae un o'r partion yn byw ynddo, er bod yna eithriadau mewn rhai amgylchiadau.
- 1.24 Mae'r system "seiliedig ar adeilad" hwn yn wahanol i nifer o awdurdodaethau eraill sy'n canolbwyntio ar awdurdodi'r bobl all weinyddu priodasau sy'n gyfreithiol ddilys, a chyfeirir at hyn yn aml fel systemau "gweinyddion".
- 1.25 Fel yn achos y rheolau ynglŷn â lleoliad, mae'r rheolau ynglŷn beth ddylai a beth na ddylai fod yn rhan o'r seremoni briodasol yn amrywio yn ddiabynnol ar y math o seremoni. Mae'r rheolau hyn yn gymhleth ac felly rydym wedi'u crynhoi mewn ffeithlun "Llwybrau Priodi", a geir ar ddiwedd y crynodeb hwn.
- 1.26 Pan fo'r ffeithlun yn nodi bod y seremoni yn gofyn am ffurf geiriau rhagnodedig, mae hyn yn golygu bod Deddf Priodas 1949 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwpl ddefnyddio geiriau penodol sy'n dangos eu bod yn rhydd i briodi a'u bod yn derbyn ei gilydd fel gŵr a gwraig. Mae'r ffeithlun hefyd yn dangos bod rhaid gweinyddu priodasau gan grefyddau eraill ar wahân i Anglicaniaid, Crynwyr ac lldewon, ym mhresenoldeb cofrestrydd sifil neu berson awdurdodedig. Mae'n rhaid i sefydliadau crefyddol sydd ag adeiladau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau gael cofrestrydd yn bresennol ym mhob priodas am y deuddeg mis cyntaf er mwyn cofrestru'r briodas. Ar ôl y cyfnod hwnnw, gallant benodi person, a elwir yn berson awdurdodedig, i fod yn gyfrifol am gofrestru. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb sydd ynghlwm â'r rôl yn atal rhai sefydliadau rhag derbyn yr opsiwn hwnnw a byddant yn parhau i ofyn am i gofrestrydd fod yn bresennol.

### **Cofrestru**

- 1.27 Mae'n rhaid cofrestru pob priodas gyda'r wladwriaeth, ym mha ffordd bynnag y cânt eu gweinyddu. Ym mhob math o seremoni, mae person penodol yn gyfrifol am sicrhau bod y briodas yn cael ei chofrestru a bod copi o'r cofnod yn y llyfr priodasau yn cael ei anfon i'r swyddfa gofrestru leol. Mae'r broses hon yn seiliedig ar y drefn bod y person cyfrifol yn anfon cofnodion chwarterol i'r swyddfa gofrestru, ac mae hon yn system a gyflwynwyd yn 1837. Yn ei thro, bydd y swyddfa gofrestru yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Ystyrir yn gyffredinol bod hon yn broses weinyddol drwsgl ac aneffeithiol.

## **HEN, CYMHLETH AC ANSICR**

- 1.28 Ar ôl disgrifio'r gyfraith bresennol yn gryno, rydym nawr am ystyried pam ein bod yn credu bod angen ei diwygio.

### **Hen**

- 1.29 Mae hanes maith yn perthyn i'r gyfraith priodas bresennol; mae llawer ohoni'n perthyn i oes cyn Deddf 1836, ac mae caniatáu trwyddedau cyffredin ac arbennig yn dyddio'n ôl i ddeddfwriaeth o 1533. Nid yw hen gyfraith yn gyfraith wael o reidrwydd, ond mae'r newidiadau yn y gymdeithas yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf yn golygu nad yw'r gyfraith sy'n rheoli priodas yn bodloni anghenion ein hoes ni erbyn hyn. Er enghraifft, erbyn hyn nid yw'r rheolau ynglŷn â chamau rhagarweiniol Anglicanaidd, sy'n dibynnu ar gyhoeddi priodas arfaethedig yn lleol er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno unrhyw wrthwynebiad, yn ymddangos yn gydnerth mewn cymdeithas fodern sydd â phoblogaeth fwy lluosog a mwy trefol, a llai yn mynychu'r eglwys.
- 1.30 Mae'r dirywiad o ran arddel crefydd ffurfiol, a'r teimlad nad yw seremoni sifil yn caniatáu digon o sgôp ar gyfer personoli, wedi arwain at bobl yn ceisio ffyrdd gwahanol i'r opsiynau sifil a chrefyddol presennol, sy'n ystyrlon iddyn nhw.
- 1.31 Mae'r galw cynyddol hwn am ffordd arall ystyrlon yn cael ei dystiolaethu gan nifer o gyplau sy'n dewis seremonïau nad ydynt yn gyfreithiol rwymol yn ychwanegol at, neu'n hytrach na, seremoni briodas sy'n gyfreithiol rwymol. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywio'n fawr. Mae rhai cyplau eisiau priodi mewn lleoliad na fyddai'n cael caniatâd i gynnal seremoni briodas gyfreithiol. Mae eraill eisiau seremoni sy'n gweddu â chredoau penodol - megis dyneiddiaeth - nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu cydnabod at ddiben gweinyddu priodas gyfreithiol. Mae nifer cynyddol o gyplau rhyng-ffydd yn dymuno cael seremoni all adlewyrchu eu gwahanol gredoau. Yn yr holl achosion hyn, gall cyplau chwilio am sefydliadau neu unigolion sy'n barod i gynnal seremonïau nad ydynt yn gyfreithiol rwymol yn unol â'u dymuniadau, sydd fel arfer yn cael eu cynnal cyn neu ar ôl priodas gyfreithiol (mewn swyddfa gofrestru yn aml). Gall hyn ychwanegu at gost priodi, ac mae'n golygu nad yr hyn maent yn ei ystyried fel eu priodas "real" yw'r seremoni y bu iddynt briodi'n gyfreithlon ynddi.
- 1.32 Hefyd, nid yw'r gyfraith bresennol yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau crefyddol yn gytbwys. Ni chafodd y ddeddfwriaeth a basiwyd yn 1836 ei dylunio gan ystyried cymdeithas aml-ffydd. Mae'r system "seiliedig ar adeilad" yn cymryd yn ganiataol y bydd pobl â chred grefyddol bob amser yn dymuno priodi yn eu man addoli eu hunain, ond nid yw hynny'n wir am bob crefydd, yn cynnwys Islam, Bwdhaeth a Jainiaeth.

## **Cymhleth**

- 1.33 Mae'r gyfraith yn y maes hwn yn gymhleth: mae yna reolau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol yn perthyn i bob cam o briodi. Mae dau lwybr camau rhagarweiniol sifil ac Anglicanaidd, y gwahaniaethau o ran lleoliad a chynnwys y gwahanol seremonïau, a'r gwahanol ofynion mewn perthynas â chofrestru, yn cyfuno i greu tirwedd cyfreithiol dyrys. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol wedi ei thanategu gan reoliadau amrywiol sy'n delio ag, er enghraifft, cymeradwyo lleoliadau ar gyfer seremonïau sifil, rhwymedigaethau pobl awdurdodedig mewn adeiladau cofrestredig, a phriodas cyplau o'r un rhyw mewn adeiladau a rennir gan wahanol grwpiau crefyddol. Dylai'r gyfraith fod mor glir a hygyrch â phosibl, ac rydym yn awgrymu bod yna ormod o reoleiddio ar rai agweddau o'r system bresennol.

## **Ansicr**

- 1.34 Er bod yna swmp sylweddol o gyfraith yn rheoli gweinyddu priodas, mae yna ddiffyg sicrwydd ynglŷn â rhai agweddau canolog. Er enghraifft, nid yw'r gyfraith yn nodi'n benodol nad oes raid i'r cwpl fod yn bresennol yn yr un ystafell, bod raid cynnal y seremoni mewn iaith maent yn ei deall, nac ar ba adeg mewn unrhyw seremoni benodol y mae'r cwpl yn briod. Hefyd, nid yw'r ddeddfwriaeth hyd yn oed yn nodi pa ofynion sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni i sicrhau bod priodas yn ddilys.
- 1.35 Mae'r gyfraith yn amlinellu amgylchiadau penodol pan fo priodas yn annilys, sy'n golygu ei bod yn annilys o'r cychwyn, o ganlyniad i fethiant bwriadol i gydymffurfio â defodau gofynnol penodol. Ceir amgylchiadau eraill pan na fydd methu â chydymffurfio yn effeithio a dilysrwydd y briodas. Fodd bynnag, mae yna fylchau yn y gyfraith sy'n golygu nad yw canlyniadau methu â chydymffurfio'n fwriadol neu'n anfwriadol yn eglur.
- 1.36 Gall y partïon mewn priodas annilys wneud hawliadau ariannol yn erbyn ei gilydd petai eu perthynas yn methu, yn yr un modd â phetaent wedi priodi'n gyfreithlon. Ond mae rhai cyplau wedi methu â chydymffurfio â'r rheolau i'r ffasion raddau fel bod y llysoedd wedi datgan nad yw eu priodas yn briodas mewn gwirionedd. Y canlyniad yw nad oes gan eu priodas unrhyw statws yng ngolwg y gyfraith ac ni all y partïon wneud unrhyw hawliad cyfreithiol yn erbyn ei gilydd petai'r briodas yn methu. Gall hyn ddigwydd ar ôl i'r cwpl fod yn byw gyda'i gilydd am nifer o flynyddoedd a bod un neu'r ddau ohonynt yn credu eu bod yn ŵr a gwraig. Mae hyn yn arbennig o debygol o ddigwydd pan fo'r cwpl yn dilyn gofynion eu crefydd, ac yn tybio drwy gamsyniad y bydd y seremoni yn cael ei chydabod gan y gyfraith.
- 1.37 Mae cyfraith achosion ddiweddar wedi amlygu ansicrwydd yn y gyfraith a natur anrhagweladwy'r canlyniad mewn achosion o'r fath. Er enghraifft, mewn un achos canfuwyd bod cwpl nad oedd wedi rhoi hysbysiad nac wedi cofrestru eu priodas wedi priodi'n ddilys oherwydd bod eu seremoni wedi cael ei chynnal mewn adeilad oedd wedi ei gofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau ar adeg pan oedd person awdurdodedig, drwy gyd-ddigwyddiad, yn bresennol. Ni ddylai'r gyfraith adael i fater mor bwysig â statws priodasol ddibynnu ar hap a damwain.

## **AMCANION DIWYGIO**

1.38 Wrth ystyried sut y gellid dyfeisio unrhyw system o gyfreithiau, rydym wedi clustnodi nifer o egwyddorion arweiniol yr ydym yn awgrymu ddylai danategu unrhyw ddiwygio yn y maes hwn. Mae'r egwyddorion hyn wedi ein harwain i gasglu y dylai amcanion diwygio anelu at ddeddfu ar gyfer creu mwy o ddewis mewn fframwaith gyfreithiol symlach.

1.39 Yr egwyddorion arweiniol yw:

- (1) sicrwydd a symlrwydd;
- (2) tegwch a chydraddoldeb;
- (3) gwarchod buddiannau'r wladwriaeth; a
- (4) pharchu dymuniadau a chredoau'r unigolyn.

### **Sicrwydd a symlrwydd**

1.40 Byddai mwy o sicrwydd a symlrwydd yn fuddiol i'r cwpl a'r wladwriaeth. Ar y lefel fwyaf elfennol, mae darparu sicrwydd ynghylch a yw cwpl yn briod neu beidio a phryd maent yn briod yn allweddol i'r partïon dan sylw a'r wladwriaeth o ran penderfynu ar eu statws a'u hawliau cyfreithiol. Gallai system symlach fod o gymorth mewn perthynas â hyn hefyd: mewn system o'r fath mae'n debygol y byddai llai o gamgymeriadau yn cael eu gwneud a llai o risg i briodasau fod yn annyls o ganlyniad i hynny. Byddai system symlach hefyd yn cael gwared â rhwystrau a chostau diangen rhag priodi a byddai'n haws a rhatach gweinyddu priodasau.

### **Tegwch a chydraddoldeb**

1.41 Mae angen i unrhyw system fod yn deg i'r rhai â chredoau gwahanol ac o ddiwylliannau gwahanol, a chydymffurfio â deddfwriaeth mewn perthynas â hawliau dynol a chydraddoldeb. Nid yw hyn yn golygu na ddylai'r system gydnabod amrywiaeth ymysg gwahanol grefyddau a chredoau. Yn hytrach, mae'n golygu y dylai'r lefel o reoleiddio fod yr un fath ar gyfer pob grŵp all weinyddu priodasau, oni bai fod yna reswm da dros eithrio.

### **Gwarchod buddiannau'r wladwriaeth**

1.42 Mae angen gwarchod buddiannau'r wladwriaeth mewn perthynas â phriodas. O ganlyniad i hyn, un dybiaeth elfennol sy'n rhan o'n gwaith yw bod yna angen peth rheoleiddio cyfreithiol ar y broses o briodi. Mae yna nifer o resymau cryf y tu ôl i dybiaeth o'r fath. Mae gan y wladwriaeth o leiaf rôl i'w chwarae o ran gwirio cymhwysedd a gallu y partïon i briodi ac a ydynt yn cydsynio i wneud hynny neu beidio, ac o ran atal ffug briodasau a phriodasau gorfodol. Mae'n hanfodol nad yw unrhyw system newydd yn tansilio rôl y wladwriaeth yn y meysydd yma. Mae gan y wladwriaeth hefyd fuddiannau mewn perthynas â chynnal cofnod o briodasau a weinyddir oherwydd bod priodas yn effeithio ar statws unigolyn ac yn arwain at hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol.



### **Parchu dymuniadau a chredoau'r unigolion**

- 1.43 Wrth gymryd cam sydd â goblygiadau cyfreithiol a phersonol sylfaenol mewn perthynas â'u bywyd gyda'i gilydd, mae'n iawn bod cwpl yn gallu gwneud hynny yn y ffordd sydd fwyaf ystyrlon iddyn nhw, p'un a bod yr ystyr hwnnw'n deillio o grefydd, credoau eraill neu argyhoeddiadau personol. Bydd angen sefydlu cydbwysedd fel bod cymaint o barch â phosibl yn cael ei roi i ddymuniadau a chredoau'r cwpl heb fod hynny'n effeithio'n niweidiol mewn unrhyw ffordd ar warchod buddiannau'r wladwriaeth mewn perthynas â phriodas.

### **OPSIYNAU DIWYGIO**

- 1.44 Yn ystod y cam cwmpasu, rydym wedi ystyried gwahanol fodelau diwygio. Rydym wedi ystyried na fyddai dau fodel, allai ymddangos yn rhai atyniadol ar yr olwg gyntaf, yn rhai priodol i'w cyflwyno ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn: deddfu ar gyfer gweinyddu priodasau gan sefydliadau credoau anghrefyddol yn unig, a deddfu ar gyfer priodas sifil gyffredinol. Yr opsiwn a ffafirir gennym, ac a fyddai'n sylfaen ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol fydd Comisiwn y Gyfraith yn ei wneud, yw diwygio sy'n creu system newydd sy'n darparu mwy o ddewis mewn strwythur gyfreithiol symlach.

### **Deddfu ar gyfer sefydliadau credoau anghrefyddol yn unig**

- 1.45 Un opsiwn diwygio fyddai deddfu yn unig er mwyn i sefydliadau credoau anghrefyddol allu gweinyddu priodasau. Mewn gwirionedd, mae Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer priodasau gan sefydliadau credoau anghrefyddol. Fodd bynnag, casglodd y Llywodraeth yn ei ymateb i ymgynghoriad 2014 nad oedd yna unrhyw opsiwn y gellid ei weithredu yn syth "fyddai'n darparu cydraddoldeb llwyr rhwng rhai sy'n arddel credoau crefyddol, rhai sy'n arddel credoau dyneiddiol neu gredoau anghrefyddol eraill, a chyplau yn fwy cyffredinol". Mae'r gwaith yr ydym wedi ei wneud yn ystod y cam cwmpasu wedi ein harwain i gytuno â'r casgliad hwnnw.
- 1.46 Mae sefydliadau credoau anghrefyddol yn tueddu i beidio â bod yn berchen ar adeiladau ellid eu cofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau. Mae hyn yn golygu na allant ffitio'n hawdd i'r system bresennol sy'n seiliedig ar adeiladau. Nid ydynt yn gydweddol ag Iddewon a Chrynwyr, y mae eu hegwyddorion presennol mewn perthynas â chyfraith priodas wedi deillio o'u harferion hanesyddol neilltuol, hunanreoleiddio caeth a niferoedd bychan. Byddai'n rhaid trin sefydliadau credoau anghrefyddol fel eithriadau newydd, a byddai hyn yn creu mwy o anomaleddau ac efallai mwy o annhegwch tybiedig, yn ddibynnol ar y ffordd y buasant yn cael eu rheoleiddio. Yr hyn sydd ei angen yw system newydd fydd yn ceisio lleihau, yn hytrach na chynyddu, y gwahaniaethau o ran sut mae'r rhai a awdurdodir i weinyddu priodasau yn cael eu trin yn gyfreithiol.
- 1.47 Hefyd, ni fyddai deddfu'n unig i ganiatáu sefydliadau credoau anghrefyddol i weinyddu priodasau yn datrys unrhyw un o'r problemau eraill sy'n gysylltiedig â'r gyfraith bresennol. O ran cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir uchod, rydym yn awgrymu na fyddai'r dewis hwn yn creu sicrwydd na symlrwydd, na thegwch na chydraddoldeb.

### **Deddfu ar gyfer priodas sifil gyffredinol.**

- 1.48 Byddai ei gwneud yn ofynnol i bob cwpl sy'n dymuno priodi fod yn rhan o seremoni briodas sifil yn newid sylfaenol i gyfraith priodas yng Nghymru a Lloegr. Er y byddai'n darparu sicrwydd a symlrwydd, tegwch a chydraddoldeb ac yn gwarchod buddiannau'r wladwriaeth, byddai priodas sifil gyffredinol yn mynd yn groes i'r syniad o barchu dymuniadau a chredoau yr unigolyn, a hynny yn ddiangen.
- 1.49 Cychwyn y prosiect oedd ystyried y gyfraith gyda'r bwriad o ymestyn yr hawl i weinyddu priodasau, nid ei dynnu ymaith. Mae'n bosibl y byddai priodas sifil gyffredinol yn cynyddu'r gost i gyplau sy'n priodi oherwydd y byddai nifer eisiau seremoni ychwanegol er mwyn adlewyrchu eu credoau a'u dealltwriaeth o briodas na ellid ei ymgorffori mewn seremoni sifil.

### **Deddf ar gyfer mwy o ddewis mewn fframwaith gyfreithiol symlach**

- 1.50 Rydym yn credu y dylai'r prosiect ddelio â'r holl ffyrdd y gall pobl briodi, yn hytrach na cheisio gorfodi priodas sifil gyffredinol, neu symud ymlaen yn unig gyda'r amcan o alluogi sefydliadau credoau anghrefyddol i weinyddu priodasau fel rhan o'r fframwaith bresennol.
- 1.51 Byddai'r prosiect yn ystyried diwygiadau wedi'u tanategu gan yr egwyddorion arweiniol a nodir uchod, gan amcanu at ddarparu mwy o ddewis mewn fframwaith gyfreithiol symlach.

### **BETH FYDDAI'N GYNWYSEDIG MEWN PROSIECT DIWYGIO COMISIWN Y GYFRAITH**

- 1.52 Byddai angen i unrhyw waith diwygio yn y dyfodol gan y Comisiwn ateb cwestiynau ynglŷn â beth ddylai ddigwydd i bob un o'r camau sy'n gysylltiedig â phriodi. Gallai'r cwestiynau a ofynnir gynnwys y canlynol:
- 1.53 *Camau rhagarweiniol:* Pam fod angen i'r wladwriaeth wybod cyn y gall pobl briodi'n gyfreithlon? Pwy ddylai dderbyn y wybodaeth honno a ble a sut y dylid ei darparu? A ddylid cael camau rhagarweiniol cyffredinol, fel bod pob cwpl sy'n bwriadu priodi yn hysbysu'r wladwriaeth?
- 1.54 *Y Seremoni:* Petai'r gallu i weinyddu priodasau yn cael ei ymestyn y tu hwnt i grwpiau crefyddol a'r wladwriaeth, sut ellid cyflawni hynny? A all y rheolau fod yn fwy cydlynol? A oes yna sgôp i ymestyn ystod y lleoliadau ble gellir cynnal seremoni briodas? Er enghraifft, a ddylid caniatáu cynnal priodasau yn yr awyr agored?
- 1.55 *Cofrestru:* Pa broses ddylid ei dilyn wrth gofrestru? Pwy ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod priodas yn cael ei chofrestru?
- 1.56 *Yn gyffredinol:* Beth ddylai'r gofynion sylfaenol fod ar gyfer priodas ddilys? Pa droseddau neu sancsiynau sydd eu hangen er mwyn ategu cyfraith priodas ddiwygiedig? A ddylai rhai agweddau penodol o'r gyfraith sy'n rheoli ffurfio partneriaethau sifil gael eu halinio â'r gyfraith sy'n rheoli gweinyddu priodasau?
- 1.57 Ym Mhennod 4 y papur cwmpasu, rydym yn nodi'r holl faterion y byddai angen eu hystyried mewn adolygiad llawn.


- 1.58 Wrth ystyried sut i ateb y cwestiynau hyn, buasem yn gweithio ar y sail y dylai'r diwygio ddigwydd o fewn paramedrau polisi a sefydlwyd eisoes. Nid ydym yn ystyried y dylid newid y gyfraith sy'n penderfynu beth yw crefydd at bwrpas gweinyddu priodas. Ystyriwyd a phenderfynwyd ar hyn yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys ac mae'n cynnwys dyfarniadau ar sail gwerthoedd sydd â goblygiadau y tu hwnt i gyfraith priodas. Ni ddylai'r prosiect chwaith archwilio eto i'r newidiadau i gyfraith priodas a wnaethpwyd gan Ddeddf Mewnfudo 2014 a fwriadwyd i leihau'r risg o ffug briodasau.
- 1.59 Yn ogystal â'n galluogi i benderfynu beth ddylai gael ei gynnwys o fewn cwrpas gwaith diwygio'n y dyfodol gan y Comisiwn, mae'r cam cwrpasu hefyd wedi ein galluogi i gasglu beth na ddylai gael ei gwmpasu. Rydym wedi nodi tri mater o'r fath; sef dyletswydd Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru i briodi eu plwyfolion, sut mae cyfraith Lloegr yn delio â phriodasau sydd wedi'u gweinyddu dramor ac a ddylai grwpiau credoau anghrefyddol orfod gweinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw.
- 1.60 Rydym hefyd wedi nodi dau faes polisi allweddol fyddai'n elfen o ddiwygio cyfraith priodas, ond maent yn gwestiynau i'r Llywodraeth yn hytrach nag i Gomisiwn y Gyfraith.
- 1.61 A ddylid ehangu categorïau presennol y rhai sy'n gallu gweinyddu priodasau, ac os felly pa grwpiau neu unigolion eraill ddylid eu cynnwys. Byddai Comisiwn y Gyfraith yn ystyried sut y gellid ymgorffori unrhyw ehangu fyddai'r Llywodraeth yn penderfynu ei wneud i'r categorïau presennol i system newydd.
- 1.62 I ba raddau y dylai unrhyw newidiadau a wneir i'r gyfraith sy'n rheoli gweinyddu priodasau gael eu hadlewyrchu yn y newidiadau i'r gyfraith sy'n rheoli ffurfio partneriaethau sifil. Buasem yn ystyried sut y gallai diwygiadau penodol weithio yn achos priodas a phartneriaeth sifil, ond mae p'un a ddylai aliniad o'r fath gael ei weithredu yn fater polisi cymdeithasol i'r Llywodraeth yn unig.

## **CASGLIAD**

- 1.63 Mae'r gyfraith bresennol sy'n rheoli gweinyddu priodasau yn hen, ansicr ac yn ddiangen o gymhleth. Nid yw'n darparu'n ddigonol ar gyfer yr amrywiol grefyddau a chredoau anghrefyddol sy'n rhan o gymdeithas yr unfed ganrif ar hugain, a thybir ei bod yn annheg. Rydym yn credu mai'r ateb yw diwygio ar raddfa fawr, ac rydym wedi nodi'r egwyddorion arweiniol ddylai danategu cyfraith priodas ddiwygiedig a'r amcan yr ydym yn credu y dylai'r diwygio anelu ato: mwy o ddewis i gyplau sy'n priodi mewn fframwaith gyfreithiol symlach.
- 1.64 Dylai cyfraith ddiwygiedig, tra'n ystyried hanes priodas, greu'r cydbwysedd priodol rhwng rhyddid i gyplau briodi yn y modd ac yn y lleoliad maent yn ei ddymuno ac sy'n ystyrllon iddyn nhw, tra'n gwarchod rhag y camweddau sy'n gysylltiedig â ffug briodasau a phriodasau gorfodol. O fewn y paramedrau yr ydym wedi eu nodi uchod, rydym yn credu bod Comisiwn y Gyfraith mewn sefyllfa dda i ddatblygu cyfraith priodas gydlynol a modern.

# LLWYBRAU PRIODI

## Gweinyddu priodasau o dan Ddeddf Priodasau 1949



◆ O dan Ran III Deddf Priodasau 1949: Priodasau o dan Dystysgrif Cofrestrydd Arolygol

◆ O dan Ran II Deddf Priodasau 1949: Priodas yn ôl defodau Eglwys Lloegr